OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 2741 (Cy. 293)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48, yr A40 a'r A4076 (Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Tachwedd 2012* |
| *Yn dod i rym* | *12 Tachwedd 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffyrdd Llundain – Abergwaun (yr A48 a'r A40) a Chefnffordd Hwlffordd – Aberdaugleddau (yr A4076) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i'r cyhoedd yn codi o ganlyniad i gludo llwyth anarferol na ellir ei rannu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Tachwedd 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48, yr A40 a'r A4076 (Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwyth anarferol na ellir ei rannu sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" *("transportation period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 12 Tachwedd 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith

o symud y llwyth anarferol na ellir ei rannu wedi ei gwblhau;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A48, yr A40 a'r A4076 yn Siroedd Caerfyrddin a Phenfro a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “person esempt” *(“exempted person”)* yw unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau brys neu â chludo'r llwyth anarferol na ellir ei rannu.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y treial, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y treial, reidio unrhyw feic pedal, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, ac eithrio person esempt, gerdded yn ystod cyfnod y treial, ar hyd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd yr heddlu neu'r hebryngwyr a gyflogir yn unol â'r treial yn hysbysu bod y gwaharddiadau y mae'r darpariaethau'n cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Tachwedd 2012

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â thraffordd yr M4 ym Mhont Abraham i'w chyffordd â chefnffordd yr A40 yng Nghaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A48 yng Nghaerfyrddin i'w chyffordd â chefnffordd yr A4076 yn Hwlffordd, Sir Benfro.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 yn Hwlffordd i Aberdaugleddau, Sir Benfro.